**Dyddiad:** Dydd Mercher 26 Mawrth 2003

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion

## Diben

1. Papur i'r Pwyllgor ei nodi ar gynnydd y gwaith o roi'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ar waith.

## Y Cefndir

2. Sefydlwyd Grwp Ymgynghorol ar Weithredu ym mis Chwefror 2002 i oruchwylio'r gwaith a helpu i fwrw ymlaen â'r strategaeth gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedlion a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol dilynol a lansiwyd ym mis Mai 2002.

3. Daeth pum person i weithio'n rhan-amser yn Llywodraeth y Cynulliad ar secondiad ym mis Chwefror 2002, i weithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'r grwp ymgynghorol ehangach i ddefndio'u gwybodaeth arbenigol a rhwydwaith o gysyslltiadau er mwyn nodi problemau sy'n rhwystro'r fframwaith rhag cael ei weithredu, ac i ddod o hyd i atebion iddynt. Mae'r tîm o bump yn cynnwys un o ddefnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl, gofalwr, yn ogystal â chynrychiolydd o Ymddiriedolaeth GIG, Awdurdod Lleol a'r sector gwirfoddol.

## Y cynnydd hyd yn hyn

### Canllawiau Comisiynu Iechyd Meddwl i Oedolion

4. Cafodd canllawiau comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion drafft eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ar 2 Rhagfyr 2002. Cyhoeddir y canllawiau terfynol y mis hwn.

### Datblygu'r Rhaglen Gofal ar gyfer Cymru

5. System gydgsylltiedig o reoli gofal sy'n seiliedig ar ddull o fynd ati sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cael ei bennu gan anghenion yr unigolyn yw'r Rhaglen Gofal. Mae'r Rhaglen yn cyfuno Cynllunio

Gofal a Rheoli Achosion ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau weithio er mwyn darparu gwasanaethau integredig lle bynnag y bo'n briodol.

6. Mae canllawiau'r Rhaglen Gofal wedi'u datblygu yng Nghymru bellach, ac mae dogfen gyfarwyddyd ar fin cael ei chyhoeddi. Dechreuodd cyfres o 12 digwyddiad hyfforddi/codi ymwybyddiaeth ledled Cymru ar 6 Chwefror 2003 a bydd wedi'i chwblhau erbyn 27 Mawrth. Er mai Rhagfyr 2004 yw dyddiad targed y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer rhoi'r Rhaglen Gofal ar waith yn llawn, gobeithiwn y bydd cynnydd digonnol yn cael ei wneud er mwyn ei rhoi ar waith yn gynt.

**Datblygu camau gweithreu er mwyn helpu mynd i'r afael â Stigma a Gwahaniaethu**

7. Sefydlwyd Tîm Gweithredu Stigma o'r grwp ymgynghorol ehangach i ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r Safon Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ynghylch stigma. Mae papur "Combating Stigma and Discrimination in Wales" wedi cael ei lunio ac mae'i gynigion yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

**Datblygu camau gweithredu ar gyfer rhoi mwy o bwer i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwr.**

8. Mae is-grwp pellach wedi cael ei sefydlu er mwyn archwilio ffyrdd o fwrw ymlaen â'r Safon ar wasanaeth galluogi defnyddwyr a gofalwyr. Mae'r is-grwp yn datblygu 'Charter For Service User and Carer Participation' ddrafft ynghyd â 'Rhestr Gyfeirio' ar gyfer darparwyr gwasanaeth o'r enw, 'How Good Is Your Involvement Of Service Users And Carers'.Bwriad y grwp yw cyhoeddi'r canllawiau yn hwyrach eleni.

**Eiriolaeth**

9. Mae canllawiau drafft hefyd wedi cael eu datblygu mewn perthynas â gwasanaethau Eiriolaeth Ysbyty, yn tynnu ar ymchwil o Adroddiad Prifysgol Durham. Mae swyddogion y Cynulliad a'r Grwp Ymgynghorol ar Weithredu yn ystyried y cynigion hyn.

**Datblygu manyleb ar gyfer asesiad sylfaenol o wasanaethau**

10. Mae manyleb wedi'i llunio ar gyfer Adolygiad Gwasanaeth llawn o wasanaethau iechyd meddwl i oedolion ledled Cymru. Bydd hon yn sail i ddatblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Anfonir y fanyleb hon allan i dendr yn fuan.

**Iechyd Meddwl mewn Gofal Sylfaenol**

11. Mae 'Rhwydwaith Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan' wedi'i sefydlu bellach, ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae gan y rhwydwaith hwn bedwar nod allweddol:

- Gweithredu fel sianel ar gyfer rhannu arferion da, gan ysgwyddo rôl ymgynghorol yn y pen draw,

gyda golwg ar ddylanwadu ar benderfyniadau polisi mewn cysylltiad â'r strategaeth iechyd meddwl a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

- Nodi arloeswyr posibl o fewn iechyd meddwl gofal sylfaenol a fydd yn gallu datblygu pecynnau hyfforddi a darparu addysg o safon uchel yn y maes hwn.

- Galluogi'r grwp rhwydwaith i weithredu newid lle bo angen, er mwyn gwella'r gwasanaeth i ddefnyddwyr, gan adeiladu ar frwdfrydedd a chyfranogiad y rhai sydd ynghlwm wrth y rhwydwaith, gan dynnu ar gymorth y Cynulliad a chan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

- Hybu ymchwil i ddatblygiad ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau mewn iechyd meddwl gofal sylfaenol.

**Byrddau Iechyd Lleol**

12. Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2003, bydd y tîm ar secondiad yn ymweld â phob ardal Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn pennu pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, beth sy'n ei rwystro rhag cael ei weithredu, a pha gymorth a chefnogaeth pellach y gall Llywodraeth y Cynulliad eu darparu.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r papur hwn, sy'n bapur i'w nodi.

**Cydymffurfio**

14. Mae Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (Adran 1) yn ymwneud â'r ddyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr a darparu neu sicrhau y darperir gwasanaethau. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i'r Cynulliad o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac maent wedi'u dirprwyo i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad.

15. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi pwer i'r Cynulliad wneud unrhyw beth i hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny (Adran 40) ac i dynnu gwariant (Adran 85(2) ) ac i osod amodau ar roi cymorth ariannol gan y Cynulliad (Adran 85(3) ). Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt: Peter Martin, yr Is-adran Polisi a Datblygu Gwasanaethau Iechyd, Ffôn. 029 2080 1470**